



gwarchodfa natur leol COED PWLLYCROCHAN WOODS

local nature reserve

- Yn agos i Fae Colwyn
- Llwybrau cylch mewn coetir
- Llawer o fywyd gwylt



- Close to Colwyn Bay
- Circular woodland trails
- Rich in wildlife



Cyflwyniad

Mae coetir wedi gorchuddio'r llechwedd hon sy'n wynebu'r gogledd ers o leiaf y 17eg ganrif, er mai rhan fechan ohoni sy'n parhau erbyn hyn. Mae'n enghraifft o'r 'goedwig wyllt' gyfoethog ac amrywiol oedd yn gorchuddio ein holl dirwedd bron iawn ers yr Oes Iâ ddiwethaf, tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae Coed Pwllcrochan yn cael ei rheoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy fel Gwarchodfa Natur Leol.

Rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwyndau eich ymweliad â'r coetir hynafol hwn.

Introduction

Woodland has covered this north-facing hillside since at least the 1600s, although now only a fraction of it still exists. It is a reminder of the rich and varied 'wild wood' habitat that once covered nearly all our landscape since the last ice age, around 10,000 years ago. Pwllcrochan Woods is managed by Conwy Countryside Service as a Local Nature Reserve.

We hope you enjoy your visit to this ancient woodland.

SUT YDW I'N MYND YNO?

Ar drên/bws: Ffôn Traveline Cymru: 0871 200 22 33
Safle we: www.traveline-cymru.org.uk
Mae'r map yn dangos sut i gyrraedd y safle.
Mae bysiau'n mynd o orsaf drên Bae Colwyn.

Ffo car: Gadewch yr A55 - cyffordd 20, Llandrillo-yn-Rhos.
Gweler y map am fanylion ar sut i gyrraedd y safle.
Gellir parcio ger ochr y ffordd ar Pwllcrochan Avenue,
Coed Pella Road a Woodland Park.

MWY O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am fwy o wybodaeth a thafenni am amrywiaeth o deithiau cerdded ewch i
Ewch i: www.conwy.gov.uk/cefnngwlad
E-bost: cg.cs@conwy.gov.uk
Ffôn: 01492 575200/575290

HOW DO I GET THERE?

By train/bus: Phone Traveline Wales: 0871 200 22 33
Website: www.traveline-cymru.org.uk
See the map for details of how to reach the site.
Buses run from Colwyn Bay Railway Station.

By car: Leave the A55 at junction 20 for Rhos-on-Sea.
See the map for details on how to reach the site.
Roadside parking available at Pwllcrochan Avenue,
Coed Pella Road and Woodland Park.


MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks
Visit: www.conwy.gov.uk/countryside
Email: cg.cs@conwy.gov.uk
Tel: 01492 575200/575290

↶ **Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda**
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

↶ **Please follow The Countryside Code**
Respect • Protect • Enjoy





GWYBODAETH AM Y DAITH

Mae sawl llwybr drwy'r coetir ond pum taith yn unig, gyda'u llwybrau wedi'u nodi'n glir gydag arwyddion ac yn ôl lliw, mae'r map hwn yn cyfeirio atynt.

Tirwedd: Mae'r llwybrau yn amrywio o rai cymharol wastad i rai serth, gan fod y coetir ar lechwedd. Nid oes gatiâu na chamfeydd. Fodd bynnag, mae stepiau wrth ddwyfynedfa a lled led y coetir.

- Pellter:** Mae'r coetir yn cynnwys 21 hecтар.
- * Llwybr Coch - 0.5 milltir / 0.8 cilomedr
 - * Llwybr Porffor - 0.75 milltir / 1.2 cilomedr
 - * Llwybr Brown - 1 milltir / 1.6 cilomedr
 - * Llwybr Oren - 1.25 milltir / 2 cilomedr
 - * Taith darganfyddiad - 0.37 milltir / 0.6 cilomedr

Llwybrau: Llwybrau pridd cywasgedig, rhai gyda cherrig mân. Mae rhai llwybrau yn fwdlyd pan mae'r tywydd yn wlyb.

Lluniaueth: Ar gael mewn siopau lleol, caffis a thafarnau ym Mae Colwyn, Hen Golwyn a Llandrillo-yn-Rhos.

I gael mwy o wybodaeth, ffoniwch 01492 575200.



WALKING INFORMATION

There are many paths through the woodland, but this map highlights only the five clearly coloured and waymarked routes around the woodland.

Ground: The paths vary from reasonably flat to steep as the woodland is on a hillside. There are no gates or stiles. However, there are steps at two access points and throughout the woodland.

- Distance:** The woodland area covers 21 hectares.
- * Red trail - 0.5 mile / 0.8 kilometre
 - * Purple trail - 0.75 mile/1.2 kilometre
 - * Brown trail - 1 mile/ 1.6 kilometre
 - * Orange trail - 1.25 mile/2 kilometre
 - * Discovery trail - 0.37 mile/ 0.6 kilometre

Path: Compacted earth paths, some with stone chippings. Some paths are muddy in wet weather.

Refreshments: Available in local shops, cafes and pubs in Colwyn Bay, Old Colwyn and Rhos on Sea.

For more information, please call 01492 575200.



Hanes Diweddar

Priododd Arglwydd ac Arglwyddes Erskine (etifeddes Pwlycrochan) ym 1821 a byw ar y stad. Fe wnaethon nhw adeiladu tŷ, ysgol Rydal erbyn hyn, a chwblhau gwaith ar y stad megis estyn y coetir tua'r gorllewin a phlannu coed a llwyni egsotig megis y gastanwydden felys, ffawydden, sycamorwydden, llarwydden, pinwydden, llusen eira, nytmeg blodeuog, llawryf a math o rhododendron sy'n tyfu'n gyflym i ddarparu cuddfan i adar gêm megis grugieir a sofleier.

Prynodd Cyngor Dosbarth Trefol Colwyn y coetir ym 1905, gan ychwanegu'r stad gyfagos Sunnyside ato yn y 1930au.

Heddiw, rydym yn rheoli'r coetir, nid yn unig i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd, ond hefyd i gadw ac annog amrywiaeth cyfoethog o fywyd gwylt.

Recent History

Lord and Lady Erskine (Pwlycrochan heiress) married and settled at the estate in 1821. They built the mansion that is now the Rydal Penrhos Preparatory School and carried out work on the estate such as extending the woodland to the west and planting exotic trees and shrubs such as sweet chestnut, beech, sycamore, larch, firs, snowberry, flowering nutmeg, laurel and a type of fast-growing rhododendron to provide cover for game birds such as grouse and quail.


The woodland was bought by Colwyn Urban District Council in 1905, with the neighbouring Sunnyside estate being added to it in the 1930s.

Today, we manage the woodland not only to promote public enjoyment but also to retain and encourage a rich diversity of wildlife.

Ffawydden
Common beech

Derwen ddiagoes
Sessile oak


Celynnen
Holly



↑ Castanwydden
Sweet chestnut

← Onnen
Common ash

↑
Brith y coed
Speckled wood



Bedwen arian ↑
Silver birch

Pinwydden yr Alban ↑
Scots pine

↑
Ywen
Common yew

Bywyd mewn coetir hynafol

Mae'r gaeaf yn amser llai prysur yn y coetir, pan mae rhai creaduriaid yn gaeafu. Mae coed llydanddail megis y dderwen, onnen, collen, bedwen a llwyfen lydanddail wedi colli eu dail ac yn dangos y mwsogl moethus a'r rhedyn sy'n cuddio yn yr isdyfiant oddi tanodd.

Yn y gwanwyn, mae'r coetir yn deffro. Mae blodau gwylt megis suran y coed, blodyn y gwynt, bresychen y cŵn a'r friwydd bêr (pob un yn arwyddo o goetir hynafol) yn blodeuo am gyfnod byr, gan gymryd mantais o'r goleuni sy'n cyrraedd llawr y goedwig. Mae blagur coed ifanc yn ymddangos i gymryd mantais o'r goleuni, cyn i ganopi'r goedwig gau a chynning cysgod yma ac acw. Mae nifer o bryfed yn cynnig digonedd o fwyd i gywion adar sy'n byw yn y goedwig a'r adar sy'n ymweld, megis y cudyll glas, y boncath, y dylluan frech, siff-siaff, delor y cnau, dringwr bach a sgrech y coed.

Mae planhigion sy'n blodeuo yn yr haf megis gwlydd melyn Mair, blodyn neidr a bysedd y cŵn yn amlwg iawn yn erbyn y sawl lliw gwyrdd gwahanol.

Mae'r tywydd yn oeri ac mae dail amryliw'r hydref yn disgyn o'r coed ac yn gorchuddio'r ddaear. Mae'r coed ffawydd anferth gyda'i rhisgl llwyd, llyfn yn edrych i lawr ar y carped efydd, crin tra bo cannoedd o ffwng (sy'n bodoli'n unig ar risgl, dail crin neu bridd) yn ymddangos, ond gan ddangos degfed ran yn unig o'u cyfanrwydd. Mae'r ffwng hwn yn cynnwys coden euraid, madarch porlen, twyllwr, pennau jeli, a corn gwyn.

Mae'r gaeaf yn dychwelyd yn araf ac yn cwblhau'r cylch.

Life in an ancient woodland

Winter is a less active time in the woods, with some creatures hibernating. Broadleaved trees like the oak, ash, hazel, birch and wych elm have lost their leaves, and now expose the luxuriant mosses and ferns hidden in the undergrowth.

In the spring, the woodland awakens. Wild flowers like wood sorrel, wood anemone, dog's mercury and woodruff (all signs of an ancient woodland) bloom for a short time, taking advantage of light reaching the woodland floor. The leaf buds of young trees burst open to take advantage of the light, before the woodland canopy closes over offering a cool dappled shade. Many different insects provide plenty of food for chicks of birds living in the woods and visiting birds such as the sparrowhawk, buzzard, tawny owl, chiffchaff, nuthatch, treecreeper and jay.

Plants that flower in the summer, such as yellow pimpernel, red campion and foxgloves, stand out against the many shades of green.

The weather cools and autumn's multi-coloured leaves fall from the trees to cloak the ground. Huge beech trees with smooth grey bark tower above the bronze crunchy carpet of leaves, while hundreds of fungi (specialising on bark, leaf litter or soils) fruit forth, but only showing a tenth of their whole. These fungi include earthball, porcelain mushroom, deceiver, jelly babies, and candle snuff fungus.

Winter slowly returns and the cycle is complete.

Sunnyside ↓



Hen blasty Pwlycrochan ↑
The old Pwlycrochan mansion

Siglen Iwyd
Grey wagtail



↓ Amanita'r pryfed
Fly Agaric

